

Y GRŴP ARBENIGOL AR ANGHENION CYMUNED Y LLUOEDD ARFOG YNG NGHYMRU

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 25 IONAWR 2017

Aelodau

Carl Sargeant AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cyrnol Lance Patterson	Brigâd 160 a'r Pencadlys yng Nghymru
Comodor yr Awyrlu Adrian Williams	Yr Awyrlu Brenhinol
Comander Steve Henaghen	Y Llynges Frenhinol
Annabel Ingram	Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin
Colin Jones	Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol
Jane Williams	Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges
Lisa Gostling	HIVE
Peter Evans	Y Lleng Brydeinig Frenhinol
Ant Metcalfe	Y Lleng Brydeinig Frenhinol
Seb Hargeaves	Cymdeithas Cynorthwyo Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA)
Lefftenant-cyrnol Stephen Hughes	Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru (RFCA)
Mike Bailey	Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr
Naomi Alleyne	CLILC
Huw Thomas	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Peter Higson	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Y Cynghorydd Brendan Toomey	CLILC
Leeanne Plechowicz	Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr – Cymru
Ian Barrow	Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr – Cymru
Paul Mayers	Alabare
Andy Green	Alabare
Bon Westcott	Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol
Jan Jones	Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol
Jason Pollard	Llywodraeth Cymru – Iechyd Meddwl
Cerys Gage	Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol

Ymddiheuriadau

Dr Sarah Watkins	Llywodraeth Cymru – Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Debbie Whittingham	COBSEO
Dawn North	HIVE
Brigadydd Alan Richmond	Brigâd 160 a'r Pencadlys yng Nghymru
Cyrnol Nick Beard	Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru (RFCA)
James Greenrod	Tîm Cyfamod y Weinyddiaeth Amddiffyn
Cyrnol Chris Downward	Cymdeithas Cynorthwyo Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA)

EITEM 1 – CROESO A CHYFLWYNIADAU

- 1.1 Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet yr aelodau a diolchodd iddyn nhw i gyd am eu holl waith a lywiodd agenda'r Lluoedd Arfog i'r dyfodol.

EITEM 2 – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF AR 13 GORFFENNAF 2016

- 2.1 Gwahoddodd Ysgrifennydd y Cabinet yr aelodau i gymeradwyo'r cofnodion. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cofnodion. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

EITEM 3 – ADRODDIAD CYNNYDD AR Y CAMAU A GYMERWYD YN DILYN Y CYFARFODYDD BLAENOROL

- 3.1 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr holl gamau wedi'u cymryd. Gwahoddwyd Cynrol Lance Patterson a Chomodor yr Awyrlu Adrian Williams i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf o'u meysydd penodol.
- 3.2 Rhoddodd Cynrol Patterson y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am Raglen Cyflogadwyedd y Lluoedd Arfog (AFEP), sydd wedi symud ymlaen yn dilyn cyllid pellach gan Lywodraeth Cymru.
- 3.3 Er gwaethaf trefniadau ariannu cytundebol newydd yn y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n rhwystro cynnydd, mae Brigâd 160 yn parhau i wella ei berthynas â phartneriaid, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau.
- 3.4 Nododd Cynrol Patterson y ffigurau presenoldeb diweddaraf ar gyfer AFEP, gan nodi bod 43 o gynrychiolwyr wedi dilyn cwrs Be the Best a bod 35 wedi mynychu ail wythnos AFEP yn 2016. Roedd 18 o bobl wedi gwneud cais i ymuno â'r Fyddin Reolaidd, ac 17 wedi gwneud cais i ymuno â'r Lluoedd Wrth Gefn. Roedd 30 wedi cael cyflogaeth y tu allan i'r Lluoedd Arfog.
- 3.5 Er bod y niferoedd sy'n mynychu AFEP wedi gostwng rhwng 2015 a 2016, esboniodd Cynrol Patterson mai'r rheswm am hyn oedd eu bod nhw bellach ond yn derbyn y rhai â'r cymwysterau iawn.
- 3.6 Nodwyd nad oes unrhyw gyllid wedi'i sicrhau hyd yma y tu hwnt i fis Mawrth 2017, er bod tanwariant yn debygol y flwyddyn ariannol hon.
- 3.7 Mae meysydd eraill y mae Brigâd 160 yn awyddus i fynd i'r afael â nhw yn cynnwys yr agenda STEM, cwrs datblygu arweinyddiaeth a chwrs AFEP cynllun carlam ar gyfer y rhai sy'n bwriadu ymuno â'r fyddin. Dywedodd hefyd yr hoffai integreiddio ag agenda STEM Llywodraeth Cymru.
- 3.8 Soniodd ysgrifennydd y Cabinet am fentrau PACE ac Esgyn y Llywodraeth, ac awgrymodd y gallai AFEP fod o fudd i ymgeiswyr sy'n anoddach eu cyrraedd. Dywedodd Cynrol Patterson fod Cymunedau yn Gyntaf yn un o bartneriaethau

AFEP, a nododd y byddai ymgeiswyr o'r fath yn sicr o elwa ar AFEP mewn rhyw ffordd.

- 3.9 Esboniodd Comodor yr Awyrlu fod llawer o waith ar y gweill i baratoi ar gyfer dathliadau canmlwyddiant yr Awyrlu Brenhinol yn 2018. Mae'r digwyddiadau sy'n cael eu trefnu yn cynnwys Parêd y Sofran ac arddangosiad hedfan yn Llundain. Cynhelir digwyddiadau cymunedol ledled Cymru, er enghraifft, arddangosfa deithiol gyda chymorth gan raglen Cymru'n Cofio Llywodraeth Cymru a digwyddiad i ddathlu Lloyd George am ei gyfraniad at sefydlu'r Awyrlu Brenhinol.
- 3.10 Mae'r Awyrlu Brenhinol yn canolbwyntio hefyd ar STEM a phobl ifanc, gyda thrafodaethau'n cael eu cynnal gyda swyddogion addysg Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r maes hwn.
- 3.11 Dywedodd Comodor yr Awyrlu y byddai'n briffio'r Grŵp Arbenigol ar raglen derfynol canmlwyddiant yr Awyrlu Brenhinol yn y cyfarfod nesaf.
- 3.12 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet yr Awyrlu Brenhinol a'r Fyddin am y wybodaeth, ac anogodd bob aelod o'r grŵp i barhau i weithio gyda'i gilydd i symud yr ymrwymadau hyn yn eu blaenau.

Cam i'w gymryd:

- **Comodor yr Awyrlu i friffio'r Grŵp Arbenigol ar raglen derfynol canmlwyddiant yr Awyrlu Brenhinol yn y cyfarfod nesaf.**

EITEM 4 – CYNLLUN CYFATHREBU

- 4.1 Cyflwynodd Naomi Alleyne gynllun cyfathrebu CLILC, sef darn o waith sy'n deillio o Gynhadledd Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog yn ystod hydref 2016. Esboniodd Naomi fod amrywiaeth o faterion cyfathrebu wedi codi mewn gweithdai, gan gynnwys sut y gallwn wella cyfathrebu ac osgoi dyblygu a rhwystredigaethau yn ymwneud â rhestris cyswllt lle nad oedd y data wedi'i ddiweddarau a oedd yn golygu nad oedd y wybodaeth yn cyrraedd y person iawn. Amlinellodd adborth yr angen am fwy o wybodaeth a chyfathrebu rhwng sefydliadau a rhwng cymuned y Lluoedd Arfog.
- 4.2 Mae awgrymiadau ar gyfer y ffordd ymlaen wedi'u hamlinellu yn y papur. Mae un o'r rhain yn cynnwys un wefan y gall pobl gael eu cyfeirio ati. Fodd bynnag, byddai angen strwythur clir a byddai angen i'r wybodaeth fod yn hawdd cael gafael arni.
- 4.3 Cododd pryderon ynglŷn â rôl y Grŵp Arbenigol yn ystod y gweithdai, gydag ansicrwydd ynglŷn ag â phwy y dylid cysylltu i leisio pryder. Awgrymwyd aelodaeth ranbarthol fel ffordd ddefnyddiol o rannu gwybodaeth yn lleol a darparu neges gyson.

- 4.4 Dywedodd Naomi fod y gweithdai yn amserol o ystyried yr amserlen ar gyfer cynigion y Weinyddiaeth Amddiffyn am gyllid Cyfamod. Mae dau gynig wedi'u gwneud gyda'r nod o wella cyfathrebu, cynyddu adnoddau a darparu cyrsiau hyfforddi pellach er mwyn gwella gwybodaeth.
- 4.5 Nodwyd y posibilrwydd o greu un wefan ar gyfer y 22 Awdurdod Lleol, fel rhyw fath o ystorfa ganolog ar gyfer cyfnewid a rhannu gwybodaeth, ac awgrymodd Mike Bailey y byddai gwefan ar gyfer holl Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog yn ddefnyddiol.
- 4.6 Gofynnodd yr aelodau a oedd COBSEO yn cael ei gadw yn y ddolen gyfathrebu. Cadarnhaodd Jan Jones fod COBSEO yn aelod o'r Grŵp Arbenigol, ei fod wedi derbyn pob papur cyn y cyfarfod a'i fod yn cael ei wahodd i Gynadleddau Cyfamod y Lluoedd Arfog.
- 4.7 Siaradodd Peter Higson am Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru, sef grŵp strategol sy'n cyfarfod yn chwarterol ac sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol a Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog. Cynigiodd Peter rannu gwybodaeth o'r cyfarfodydd a dywedodd y dylai fod gan bob Bwrdd Iechyd Lleol fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth a thrafod arfer gorau.
- 4.8 Pwysleisiodd Jan bwysigrwydd dosbarthu cofnodion y Grŵp Arbenigol i rwydweithiau ehangach, a chytunodd i rannu cofnodion Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru gydag aelodau'r Grŵp Arbenigol a rhwydweithiau ehangach i gael mwy o wybodaeth.
- 4.9 Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru yn enghraifft dda o arfer gorau.
- 4.10 Mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet ddiddordeb mewn adolygu cylch gorchwyl a disgrifiadau swydd Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog. Ar ôl yr etholiadau, cadarnhawyd y byddai gwaith yn cael ei wneud i ddiweddarau'r rôl. Byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn gwahodd Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog i gyfarfod i drafod eu rôl a'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi hefyd i'r posibilrwydd o adolygu aelodaeth Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog. Bydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.
- 4.11 Roedd gan Ysgrifennydd y Cabinet ddiddordeb yn y cynigion am Gyllid Cyfamod ac roedd yn awyddus i gael y wybodaeth ddiweddaraf ar ôl i benderfyniad gael ei wneud. Roedd yn awyddus hefyd i weld copi o'r cynigion am wybodaeth.

Camau i'w cymryd:

- **Gwaith i'w wneud ar ôl yr etholiadau i adolygu rôl Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog.**
- **Cofnodion Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru i'w rhannu gydag aelodau'r Grŵp Arbenigol a rhwydweithiau ehangach.**

- **Ysgrifennydd y Cabinet i wahodd Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog i gyfarfod i drafod eu rôl a'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.**

EITEM 5 – ASTUDIAETHAU ACHOS

- 5.1 Cyflwynodd Paul Meyers yr astudiaethau achos sy'n olrhain llwybr cyn-filwyr sy'n agored i niwed. Esboniodd Paul mai un o'r themâu cyffredin sydd wedi dod i'r amlwg fel rhan o'r ymchwil a gynhaliwyd yw'r broses bontio ar ôl gadael y Lluoedd Arfog. Mae'r bobl sy'n cael eu recriwtio i'r Lluoedd Arfog yn gallu bod yn bobl ifanc agored i niwed heb lawer o sgiliau bywyd ac, er gwaethaf yr hyfforddiant a dderbyniant, maent yn gadael y Lluoedd Arfog heb lawer o syniad o sut beth yw bywyd yn y byd go iawn. Mae llawer wedi dioddef trawma hefyd yn ystod eu hamser yn y Lluoedd Arfog ac, oherwydd nad yw hyn yn cael ei drafod yn briodol bob amser, yn aml maent yn cael eu gadael i ymdrin â'r peth ar eu pennau eu hunain yn dilyn y broses bontio.
- 5.2 Nodwyd nad yw cyn-filwyr bob amser yn ymwybodol o'r gwasanaethau a'r cymorth y gallant gael mynediad atynt ar ôl y broses bontio. Mae llawer ohonynt yn dibynnu ar reddf, o ystyried eu diffyg gwydnwch a chymorth gan y teulu.
- 5.3 Esboniodd Cynol Patterson y gall y rhai sy'n methu'r prawf CDT (prawf cyffuriau gorfodol) gael eu rhyddhau'n gyflym heb lawer o gymorth a dychwelyd i le'r oeddent pan oeddent yn 16 oed. Wrth ymuno â'r Lluoedd Arfog, mae'r bobl ifanc yn agored i niwed yn aml, ac mae'r sefyllfa hon yn gallu gwaethygu wrth wasanaethu.
- 5.4 Cwestiynodd yr aelodau sut y gallen nhw, fel grŵp, nodi problemau yn gynharach er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n agored i niwed. Awgrymwyd efallai y gellid ystyried llwybr cymorth a ddatblygir mewn cydweithrediad â chymuned y Lluoedd Arfog. Dywedodd Mike Bailey y gallai cymorth gan Veterans UK ar faterion pontio helpu i atgyfnerthu hyn.
- 5.5 Er bod ymchwil yn ymwneud â'r Lluoedd Arfog yn eang, nodwyd y byddai'n ddefnyddiol rhoi rhywbeth ar waith i helpu i recriwtio a meithrin gwydnwch. Mae'r rhai sy'n gadael y gwasanaeth yn gynnar yn gadael y Lluoedd Arfog yn gyflym a heb lawer o ymgysylltu, os o gwbl. Esboniodd Paul ei bod hi'n gallu cymryd hyd at 10 mlynedd ar ôl y pontio i gyn-filwyr ymgysylltu a gofyn am gymorth. Mae angen gwneud gwaith pellach i nodi lleoliad cyn-filwyr, i wella dulliau cyfathrebu ac i sicrhau bod gwasanaethau'n effeithiol ac yn hawdd cael gafael arnynt. Dywedodd Peter Higson fod gwaith ar reoli personél a'r rhai sy'n gadael y gwasanaeth yn gynnar wedi'i gyflawni ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Nododd Ant Metcalfe y dylid gwneud gwaith pellach i wella dulliau cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau.
- 5.6 Siaradodd Peter Higson am y cyflwyniad diweddar yn Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru a roddwyd gan Ian Langton, Rheolwr Preswyl CEM Berwyn, a fydd yn dod yn weithredol ddiwedd mis Chwefror 2017. Mae gan CEM Berwyn, a fydd yn canolbwyntio ar adsefydlu dynion yn ei ofal, ei uned ei hun

ar gyfer cyn-filwyr a reolir gan lan ac sy'n copïo model Uned Endeavour CEM Parc.

- 5.7 Cyflwynodd Ant Metcalfe yr astudiaethau achos a ddarparwyd gan y Lleng Brydeinig Frenhinol ac esboniodd fod £500,000 yn cael ei wario ar gymorth lles i gyn-filwyr bob blwyddyn. Tai, gan gynnwys addasiadau, yw un o'r prif feysydd sydd angen cymorth pellach, ynghyd â chymorth symudedd a darparu nwyddau brown. Yn groes i'r gred mai'r cyn-filwyr hŷn sydd angen y cymorth mwyaf, nododd Ant mai oedran cyfartalog y cyn-filwyr a oedd yn cysylltu â'r Lleng Brydeinig Frenhinol i gael cymorth yw 55 oed. Nodwyd bod tua 800 o gyn-filwyr wedi cael cymorth ariannol yn ystod 2016-17 hyd yma.
- 5.8 Dywedodd Lefftenant-cyrnol Stephen Hughes fod Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru yn gweithio ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan gynnig cymorth i gyn-filwyr. Mae RFCA wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion o anabledd, ac esboniodd Stephen fod 5 achos yn cael eu trafod yr un pryd bob amser.
- 5.9 Amlinellodd Ian Barrow y cyfraniad mae SToMP (*Supporting Transition of Military Personnel*) wedi'i wneud at gydgyssylltu gwasanaethau i gyn-filwyr ar draws y system cyfiawnder troseddol, o'r heddlu'n cael ei alw allan i ryddhau rhywun o'r carchar, gan gynnwys cefnogi datblygiad model CEM Berwyn. Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet am gyflwyniad ar waith SToMP tuag at ddatblygu dull system gyfan, i gynnwys modelau CEM Parc a CEM Berwyn.
- 5.10 Siaradodd Ant Metcalfe am y Porth Cyn-filwyr, y mae'r contract amdano wedi'i ddyfarnu'n ddiweddar i'r Lleng Brydeinig Frenhinol a phartneriaid allweddol eraill. Bydd y Porth yn darparu un pwynt cyswllt ac yn cynnwys ap ffôn symudol. Y gobaith yw y bydd y Porth, a fydd yn cael ei lansio yn gynnar yn y gwanwyn, yn nodi pa gymorth ychwanegol sydd ei angen ar gymuned y Lluoedd Arfog.
- 5.11 Ar ôl clywed astudiaethau achos gan gyn-filwyr, awgrymodd Annabel Ingram y byddai'n ddefnyddiol hefyd i ystyried astudiaethau achos gan filwyr presennol.

Camau i'w cymryd:

- **Y cyfarfod nesaf i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am SToMP, Adain Endeavour CEM Parc ac Uned Stocker CEM Berwyn**
- **Y Ffederasiynau Teuluoedd i gyflwyno astudiaethau achos yn y cyfarfod nesaf.**

EITEM 6 – UNRHYW FATER ARALL

- 6.1 Atgyfnerthodd Ysgrifennydd y Cabinet ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau a gyflwynir fel rhan o'r Adolygiad o'r Ystadau Amddiffyn. Dywedodd wrth yr aelodau fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Mark Lancaster, y Gweinidog dros Gyn-filwyr.

- 6.2 Dywedodd Lefftenant-cyrnol Stephen Hughes wrth yr aelodau fod cyllid wedi'i ddarparu gan y Llynges Frenhinol i adeiladu cyfleuster newydd ar gyfer y Llynges Frenhinol Wrth Gefn ym Mae Caerdydd. Bydd y cyfleuster, a fydd yn cael ei adeiladu yn unol â manyleb y Llynges Frenhinol, yn darparu cyfleusterau ar gyfer Uned y Llynges Frenhinol Wrth Gefn, Adain Caerdydd y Môr-filwyr Brenhinol Wrth Gefn ac Uned Llynges Frenhinol Prifysgol Cymru. Cafwyd cymeradwyaeth ariannol ym mis Hydref 2016, gyda'r bwriad o ddechrau ar y gwaith adeiladu yn ystod hydref 2017. Rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2018 ac y bydd y cyfleuster yn agor yn swyddogol yn ystod haf 2019.
- 6.3 Roedd Cynol Lance Patterson yn gobeithio y byddai'r cyfleuster yn cael ei ehangu yn y dyfodol i gynnwys Lluoedd Wrth Gefn y Fyddin. Siaradodd Cynol Patterson am yr Adolygiad o'r Ystadau Amddiffyn, gan nodi pe bai'r adolygiad yn mynd yn ei flaen yn ôl y bwriad, y byddai bylchau yng Nghymru, gyda phencadlys y Fyddin i gael ei adleoli, yn ogystal â Barics Cawdor.
- 6.4 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet a fyddai Woody's Lodge yn cael ei adleoli i gyfleuster newydd y Llynges Frenhinol Wrth Gefn, a chadarnhaodd Stephen y byddai'r ganolfan yn aros lle mae hi ar hyn o bryd. Nodwyd bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi bod mewn digwyddiad gan Woody's Lodge yn y Senedd yn ddiweddar.
- 6.5 Siaradodd Jane Williams am lansiad canmlwyddiant y Drywod ar 8 Mawrth, ac roedd hi'n gobeithio y byddai cyfle i hyrwyddo'r arddangosfa yng Nghymru. Cadarnhaodd Comander Steve Henaghen y byddai'r Drywod yn arwain y parêd fel rhan o Ddiwrnod Lluoedd Arfog De Cymru ym mis Mehefin.
- 6.6 Dywedodd Colin Jones fod yna bryderon o hyd ynglŷn â darpariaeth deintyddiaeth ar Ynys Môn. Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet am nodyn gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch deintyddiaeth.
- 6.7 Dywedodd Seb Hargreaves wrth yr aelodau fod SSAFA wedi ennill y contract gwaith cymdeithasol ar ran yr Awyrlu Brenhinol.
- 6.8 Dywedodd Jane Williams y dylid rhoi sylw i waith Cyngor Swydd Warwick a Chyngor Swydd Hampshire fel enghreifftiau o arfer da.

Cam i'w gymryd:

- **Nodyn ynghylch y materion deintyddiaeth ar Ynys Môn gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'w ddarparu i Ysgrifennydd y Cabinet**

EITEM 7 – DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

- 7.1 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet yr aelodau am eu cyfraniadau pwysig. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 5 Gorffennaf, 10.00 – 11.00, yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd.